

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mercher, 7 Hydref 2015 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ann Davies (Is-Gadeirydd), Meirick Davies, Stuart Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler (Cadeirydd), Barry Mellor, Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Anton Sampson, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams a/ac Huw Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

Simon Dean, Prif Weithredwr Dros Dro, BIPBC

Dr Peter Higson OBE, Cadeirydd, BIPBC

Bethan Jones, Cyfarwyddwr Ardal ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych, BIPBC, a Geoff Ryall-Harvey, Prif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Bill Cowie, Richard Davies, Carys Guy, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Jason McLellan, Win Mullen-James, Paul Penlington, Pete Prendergast a/ac Eryl Williams

2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Brian Blakeley, Ann Davies, Bobby Feeley, Jeanette Chamberlain Jones, Dewi Owens, Huw Hilditch-Roberts a Cefyn Williams i gyd gysylltiad personol

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Arbennig y Cyngor a diolchodd i gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a Chyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) am eu presenoldeb.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cwestiynau a gyflwynwyd gan Gynghorwyr eisoes wedi'u dosbarthu i gynrychiolwyr BIPBC a CICGC. Byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal mewn dwy ran – rhan gyntaf, cwestiynau'r aelodau i gynrychiolwyr BIPBC a'r ail ran, cwestiynau'r aelodau i gynrychiolydd CICGC.

4 MATERION CYFREDOL YN EFFEITHIO AR WASANAETHAU IECHYD YN SIR DDINBYCH A SUT Y GELLIR MYND I'R AFAEL Â'R RHAIN

ADRAN 1 - BIPBC

Cwestiwn 1 - Y Cynghorydd Dewi Owens

“Pam mai eich opsiwn dewisol yw gwneud newidiadau dros dro i wasanaethau dan arweiniad Ymgynghorydd Obstetreg yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC) pan rydych yn bwriadu agor a recriwtio Ymgynghorwyr i'r Ganolfan Dwys Ofal newydd enedigol isranbarthol newydd? Pam y bydd heriau recriwtio'n wahanol?”

Mynegodd Prif Weithredwr Dros Dro BIPBC ei ddiolchgarwch o gael y cyfle i fynychu cyfarfod y Cyngor.

Esboniodd y Prif Weithredwr Dros Dro i'r Aelodau ei fod wedi bod yn ei swydd am gyfnod o bedwar mis yn unig a'i fod wedi'i blesio gyda'r staff ar draws Gogledd Cymru, a oedd yn darparu gofal rhagorol o ddydd i ddydd. Byddai angen i'r sefydliad fod yn fwy allblyg ac roeddent yn edrych ymlaen at weithio'n agored ac yn adeiladol gyda'r Cyngor.

Mewn ymateb i'r cwestiwn a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Dewi Owens, cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y cyfnod Ymgynghori Cyhoeddus wedi dod i ben yn ddiweddar. Roedd angen dadansoddi'r ymatebion a byddai'r adolygiad ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Roedd y gwasanaethau mamolaeth wedi bod yn fater cymhleth, gyda phroblemau'n syth. Bu cyfradd o tua 50% o swyddi gwag, a oedd yn peri risg, felly bu'n rhaid cyflogi Meddygon byrdymor. Roedd trafodaethau wedi bod yn digwydd gyda staff clinigol ym mhob un o'r gwasanaethau a oedd wedi rhoi gwybod i'r Bwrdd am freuder y mwyafrif o wasanaethau.

Yr Opsiwn a ffefrir oedd cael cyflenwadwyedd ar lefel ymarferol. Ni fyddai'r newidiadau yn barhaol ond ar sail dros dro. Eglurodd y Prif Weithredwr Dros Dro nad oedd yr ymgynghoriad wedi ei lywio gan reolaeth nac arian.

Un o'r pwyntiau ffocws yn y gwaith cynllunio yn y dyfodol fyddai cael gofal newydd enedigol ar safle Ysbyty Glan Clwyd, ac roedd y broses recriwtio wedi dechrau ar gyfer y gwasanaeth. Byddai hyn yn rhan o'r strategaeth i annog staff i ddilyn eu gyrfa yng Ngogledd Cymru.

Eglurodd Cadeirydd BIPBC i Aelodau nad oedd y mater o recriwtio wedi bod yn benodol i Ogledd Cymru, ond wedi bod yn broblem ledled y wlad.

Cwestiwn 2 - y Cynghorydd Raymond Bartley

“Pa sicrwydd allwch chi ei roi i ni na fydd cam-drin pobl hŷn ddiamddiffyn â Dementia yn digwydd eto, o ystyried yr hyn a ddigwyddodd yn ‘Tawel Fan’. Pa newidiadau ydych chi wedi’u gwneud o ganlyniad i’r adroddiad gan Donna Ochenden? Beth yw’r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â phrosesau disgyblu mewnol?”

Cytunodd y Prif Weithredwr Dros Dro bod y materion yn Tawel Fan wedi bod yn warthus. Roedd mesurau arbennig bellach ar waith fel bod prosesau ansawdd yn sicrhau na fyddai’r problemau’n codi eto yn y dyfodol. Byddai angen llawer iawn o waith i ddatblygu Gwasanaethau Iechyd Meddwl, gwaith a fyddai hefyd yn cynnwys yr Awdurdod Lleol. Roedd y newidiadau a oedd eisoes wedi digwydd a’r rhai a oedd i ddigwydd yn gysylltiedig â’r adroddiad gan Donna Ochenden.

Roedd BIPBC wedi comisiynu’r Gwasanaeth Cynghori ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HASCAS), a oedd yn brofiadol dros ben wrth ymgymryd â materion o’r math hwn. Roedd HASCAS wedi cael ei gomisiynu i gynnal ymchwiliad llawn ac i ddarparu ymatebion manwl i bryderon a godwyd gan deuluoedd y cleifion hynny yr effeithir arnynt. Yr ail dasg ar gyfer HASCAS fyddai, lle y bo’n briodol, paratoi achosion disgyblu yn erbyn aelodau unigol o staff. Byddai HASCAS yn cyfweld teuluoedd eto ynghyd â nifer o deuluoedd ychwanegol a oedd wedi dod ymlaen ers cwblhau adroddiad Donna Ochenden. Cadarnhawyd bod nifer o staff wedi cael eu hatal, tra’n aros am gamau disgyblu, a bod nifer o staff wedi cael eu hadrodd i’r cyrff rheoleiddio. Byddai ymchwiliad HASCAS, gobeithio, yn cael ei gwblhau erbyn dechrau 2016, ond ar hyn o bryd, ni ellid cadarnhau’r union ddyddiad.

Roedd Donna Ochenden wedi ei chomisiynu i gynnal adolygiad pellach i ymchwilio i "beth oedd y sefydliad ehangach yn ei wybod am yr hyn a oedd wedi bod yn digwydd"?

Roedd amser eto i’w gytuno gyda Donna Ochenden. Byddai pryderon teuluoedd yn cael sylw cyn gynted ag y bo modd. Roedd BIPBC yn sicrhau y byddai’r adolygiad yn cael ei gwblhau’n drylwyr.

Cadarnhaodd Cadeirydd BIPBC fod y digwyddiadau yn Tawel Fan yn annerbyniol ac roedd camau’n cael eu cymryd i sicrhau na fyddai’n digwydd eto.

Cwestiwn 3 - Y Cynghorydd Bobby Feeley.

“Bydd Deddf Gofal Cymdeithasol a Lles yn dod i rym ym mis Ebrill 2016. Bydd hyn yn gofyn i Awdurdodau Lleol a Gofal Cymdeithasol weithio gyda’i gilydd. Beth arall y gellir ei wneud i symud ymlaen gyda’r gwaith o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol? Sut ydych chi’n bwriadu sicrhau bod gan y Cyfarwyddwyr Ardal yr adnoddau angenrheidiol i weithredu ar y cynlluniau hyn?”

Eglurodd y Prif Weithredwr Dros Dro bwysigrwydd integreiddio’r Bwrdd Iechyd a’r Gwasanaethau Cymdeithasol fel cam mawr ymlaen. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb i wella iechyd pobl ac roedd cyfathrebu â chymunedau yn hanfodol. Byddai rôl y Cyfarwyddwyr Ardal yn hanfodol i lywio’r gwasanaeth yn y dyfodol.

Byddai'n rhaid ail-ymgysylltu â phobl yn y gymuned i ailadeiladu eu hyder yn y Gwasanaeth Iechyd.

Roedd recriwtio yn her i'r sefydliad a chadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro eu bod yn cysylltu â'r holl staff, ynghyd ag ymgysylltu â'r cyhoedd. Byddai cael consensws clinigol hefyd yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y boblogaeth. Y prif bryder oedd recriwtio meddygon canol. Byddai enw da Betsi Cadwaladr yn ystyriaeth i ddarparu feddygon, felly, roedd yn rhaid gweithio i wella enw da'r Bwrdd ac i annog recriwtio staff, gan gynnwys nyrsys, i'r ardal.

Ar y pwynt hwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Ardal fod sesiynau Cynllunio ar y Cyd gydag Awdurdodau Lleol yn cael eu cynnal yn gynnar ym mis Rhagfyr 2015 i ganfod sut y byddai'r Gwasanaeth Iechyd yn cael ei ddelweddu mewn 3 i 5 mlynedd, a chadarnhaodd y byddai gweledigaeth a chynllun ar waith ymhen chwe mis.

Eglurodd Cadeirydd BIPBC nad yw cynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd wedi cael ei gynhyrchu a gweledigaeth y Bwrdd fyddai datblygu ymdeimlad clir o gyfeiriad ar gyfer pob gwasanaeth, ond y prif gyfrifoldeb fyddai iechyd y boblogaeth.

Cwestiwn 4 - Y Cynghorydd Ann Davies.

“Allwn ni gael y wybodaeth ddiweddaraf am ailddatblygiad Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl? A fydd yn cael ei gyflwyno ar amser ac o fewn y gyllideb?”

Eglurodd y Cyfarwyddwr Ardal y byddai prosiect Ysbyty Brenhinol Alexandra bellach yn dod o dan ei chylch gwaith hi. Ers i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r amlinelliad strategol yn 2013, mae'r cynlluniau presennol yn fwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Roedd nifer o faterion a oedd yn effeithio ar y cynlluniau, er enghraifft:

- Byddai rhywfaint o'r gofod adrannol angenrheidiol yn fwy na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol
- Roedd Ysbyty Brenhinol Alexandra yn adeilad rhestredig a datgelodd arolygon y byddai angen mwy o waith i uwchraddio'r ysbyty i safon fodern.

O ystyried bod y cyfalaf wedi cynyddu'n sylweddol, byddai adolygiad yn cael ei gynnal i ganfod beth fyddai angen ei wneud. Gan fod darparu Gwasanaeth Iechyd digonol yn hanfodol, byddai'r gwaith yn cael ei gynnal gyda'r Awdurdod Lleol i fynd i'r afael â materion. Byddai gosod Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Brenhinol Alexandra hefyd yn cael ei archwilio.

Eglurodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y prosiect yn Ysbyty Brenhinol Alexandra yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru.

Cwestiwn 5 - Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts.

“Gyda'r Cynllun 100 Diwrnod, beth sy'n mynd ymlaen ac ar ba gyflymder? Beth amdanom ni, fel Cynghorwyr, sut y gallwn ni helpu ein preswylwyr?”

Rydym wedi clywed am y cynlluniau 100 diwrnod, maent bellach wedi gorffen, beth sy'n digwydd rŵan?"

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro nad 100 diwrnod oedd swm dyddiau'r cynlluniau a oedd yn angenrheidiol i newid ac achub Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Pwrpas y cynlluniau 100 diwrnod oedd annog pobl i wella ac ail-ennill hyder. Byddai'n rhaid datblygu cynllun ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol. Byddai'n hanfodol i ddod yn well wrth gynllunio, ymgysylltu â'r cyhoedd, staff, rhanddeiliaid a sefydliadau partner, gan fod angen canlyniadau gwell a fyddai'n gweithio o fewn y lleoliadau ariannol. Byddai hefyd angen i fwy o wasanaethau gael eu darparu'n lleol a byddai'r rhain yn cael eu darparu trwy edrych ar gynigion gofal eraill.

Cwestiwn 6 - Y Cynghorydd Gareth Sandilands.

"Beth yw eich cynlluniau ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol ym Mhrestatyn o ystyried y cyhoeddiad diweddar gan Feddygfa Pendyffryn? Pa gamau ydych chi'n bwriadu eu cymryd i atal hyn rhag digwydd mewn mannau eraill, yn enwedig gan fod meddyg teulu Seabank bellach wedi ymddiswyddo o'r feddygfa?"

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Ardal fod Grŵp Aelodau Ardal Prestatyn wedi cael gwybod am y materion sy'n ymwneud â Meddygfa Pendyffryn yr wythnos flaenorol. Byddai angen gofal sylfaenol amgen ar tua 22,500 o gleifion o fis Ebrill 2016.

Roedd angen ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol ym Mhrestatyn gan fod yna faterion o ran denu meddygon teulu i'r ardal, oherwydd y cyfrifoldeb o brynu i mewn i feddygfa a'r mater o gydbwysedd gwaith/bywyd digonol, er enghraifft. Nid oes unrhyw newidiadau i'w gwneud cyn 1 Ebrill 2016 ond ar ôl y dyddiad hwnnw, byddai mesurau wrth gefn ar waith ar gyfer pobl Prestatyn i gael eu gwasanaethu gan ofal sylfaenol.

Eglurodd y Prif Weithredwr Dros Dro i Aelodau bod meddygfeydd ar draws y DU yn ei chael yn anodd denu meddygon teulu newydd i recriwtio, ac nid oedd y broblem yn unigryw i Gymru.

Cwestiwn 7 - Y Cynghorydd Joan Butterfield.

"Pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â sefyllfa ariannol BIPBC?"

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y Bwrdd Iechyd yn wynebu her ariannol. Roedd symiau mawr o arian wedi ei wario yn cyflogi staff meddygol locwm ond, y ddau ddewis oedd talu am staff locwm neu ddod â'r gwasanaeth i ben. Roedd y Bwrdd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r broblem ariannol. Roedd arbedion i'w gwneud ac roedd rhaid i'r rhain fod yn arbedion na fyddai'n effeithio ar ofal cleifion. Byddai hyn yn her sylweddol ond roedd yn rhaid sicrhau'r cydbwysedd rhwng darparu gofal o ansawdd uchel a bodloni'r cyfrifoldebau ariannol.

Cafodd awgrym o newid enw'r Bwrdd ei gyflwyno i liniaru materion enw da. Nid oedd newid enw'r Bwrdd lechyd yn benderfyniad i'w wneud gan y Bwrdd, ond gan y Gweinidog.

Cwestiwn 8 - Y Cynghorydd Alice Jones.

“Mae eich trefniadau penodi ar sail dros dro, pa gynlluniau sydd ar waith i recriwtio Prif Swyddog Gweithredol parhaol?”

Cadarnhaodd Cadeirydd BIPBC, o ran penodi Prif Weithredwr, y byddai'r mater yn cael ei ddatrys cyn gynted â phosibl.

Cymerodd y Cynghorydd Jones y cyfle i godi'r materion canlynol yn ogystal:

- ***Byddai cleifion a theluoedd yn sefydlu enw da y Bwrdd, ond ar hyn o bryd, mae mwy o wasanaeth drwg na gwasanaeth da;***
- Gofynnodd y Prif Weithredwr Dros Dro am dystiolaeth o ddatganiad y Cynghorydd Jones o fwy o gleifion yn cael gofal drwg na gofal da.
- ***O ran recriwtio meddygon teulu, pam ydych chi'n cynnig rhywbeth newydd? Mae'r meddygon teulu yn y meddygon ym Mhrestatyn wedi bod yn rhybuddio y byddai hyn yn digwydd;***
- Ni allai'r Prif Weithredwr Dros Dro roi sylw ar yr hyn oedd wedi digwydd yn y gorffennol. Fel y nodwyd yn flaenorol, cafwyd problemau o ran recriwtio mewn amrywiaeth eang o arbenigeddau ar draws y DU gyfan, nid dim ond yn benodol yng Ngogledd Cymru.
- ***Mae'r polisi byw'n iach yn dda ond tuag at ddiwedd oes, bydd angen gofal ar bawb.***
- Bu farw 70% o bobl yn yr ysbyty ac nid oedd unrhyw bryderon ynghylch gofal lliniarol.

Cwestiwn 9 - Y Cynghorydd Martyn Holland.

“Roedd gan Unedau Mân Anafiadau sŵn traed isel am nad oedd pobl yn gwybod eu bod yno. Beth mae BIPBC yn ei wneud ynghylch hyrwyddo gwasanaethau megis yr Unedau Mân Anafiadau, ac a yw'r unedau hynny'n cael eu staffio'n ddigonol?”

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Ardal fod yna dair Uned Mân Anafiadau sy'n cwmpasu ardal Conwy a Sir Ddinbych. Mae un yn Nhreffynnon, sef Conwy a Sir Ddinbych at ddibenion iechyd, un yn Ninbych a'r fwyaf yn Llandudno. Roedd yr adeilad newydd yn Llandudno wedi ei gwblhau yn ddiweddar, a byddai'n agor ar 26 Hydref 2015. Nid oedd unrhyw faterion staffio yn yr Unedau gan eu bod i gyd wedi'u staffio'n llawn ac yn weithredol.

Roedd defnydd o'r Unedau Mân Anafiadau wedi cynyddu ac roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch a ddylai'r Unedau hefyd gynnwys mân anhwylderau, gan fod amserau aros yn yr Uned Mân Anafiadau yn llawer llai na'r amserau aros yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Holodd y Cynghorydd Stuart Davies a fyddai'r Uned Mân Anafiadau yn Llangollen yn mynd yn ei flaen a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Ardal y byddai'n edrych i mewn i'r mater.

Mynegodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Gwyneth Kensler, ddiolchgarwch y Cyngor i gynrychiolwyr BIPBC am fynychu cyfarfod y Cyngor Arbennig gyda'u hesboniadau.

Ar y pwynt hwn (12.05pm) cafwyd egwyl o 20 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.25 pm

ADRAN 2 - BIPBC

Cwestiwn 1 - y Cynghorydd Raymond Bartley

“Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod aelodau o'r Cyngor lechyd Cymuned yn parhau i feithrin cydberthnasau cytûn gyda staff rheng flaen yn hytrach na chael eu gweld fel arolygwyr ‘clipfwrdd’?”

Cadarnhaodd y Prif Swyddog, Cyngor lechyd Cymuned Gogledd Cymru, ei fod yn un o'r Prif Swyddogion sydd wedi gwasanaethu hiraf mewn Cyngor lechyd Cymuned.

Cadarnhaodd fod newid yr enw i "Cyngor lechyd Cymuned Gogledd Cymru" (CICGC) wedi ei roi ar waith i wahaniaethu eu hunain oddi wrth y Bwrdd lechyd.

Yn ystod y 12 mis blaenorol, cynhaliwyd 600 o ymweliadau, gan gynnwys nifer fwy o ymweliadau dirybudd yn ogystal ag ymweliadau â wardiau lechyd Meddwl. Croesawyd gwirfoddolwyr CICGC gan staff i'r wardiau. Bu CICGC yn ymweld â wardiau'n rheolaidd ac roedd staff yn ymwybodol o hynny. Pe bai problemau wedi codi, byddai CICGC yn sicrhau yr ymdriniwyd â'r materion.

“Bugwatch” oedd yr arolwg rheoli heintiau. Roedd CICGC yn cydweithio gyda'r Tîm Rheoli Heintiau i hyrwyddo'r Arolwg "Bugwatch". Roedd safonau yn uchel ond, yn anffodus, nid oeddent yn gyson. Byddai arolwg "Bugwatch" ar waith i annog cysondeb.

Ni chafodd staff a gwirfoddolwyr a fynychodd wardiau seiciatrig hyfforddiant penodol, ar hyn o bryd, ond cawsant hyfforddiant ar gyfer mynd i unedau diogel.

Eglurwyd nad oedd gan CICGC yr awdurdod neu'r pŵer i gau wardiau pe gwelwyd eu bod yn tanberfformio neu'n anniogel. Byddai CICGC yn atgyfeirio materion at y Gweinidog, gan mai ef yn unig oedd â'r pŵer i gau ward.

Roedd CICGC yn annog y defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae nifer fawr o CICGC yn siarad Cymraeg. Roedd ap wedi'i ddatblygu i gael ei gwblhau yn Gymraeg a gallai wedyn gael ei gyfieithu i'r Saesneg hefyd. Roedd CICGC hefyd yn sicrhau bod

gwasanaethau ac arwyddion yn yr uned babanod sâl yn Arrowe Park yn Gymraeg ac yn Saesneg, a byddai staff sy'n siarad Cymraeg ar gael hefyd.

Cwestiwn 2 - Y Cynghorydd Ann Davies.

“Hoffwn longyfarch aelodau'r CIC am eu holl waith caled. Beth ydych chi'n ei wneud i ymgysylltu'n rhagweithiol gydag Aelodau o BIPBC o ran y pwrpas cyffredin o wella gofal iechyd yng Ngogledd Cymru?”

Eglurodd y Prif Swyddog fod BIPBC a CICGC yn cyfarfod yn ffurfiol fel Byrddau 3-4 gwaith y flwyddyn i drafod materion. Yn anffurfiol, cyfarfu aelodau CICGC ag aelodau BIPBC yn rheolaidd. Bu Cadeirydd a Phrif Swyddog CICGC hefyd yn siarad yn uniongyrchol â Phrif Weithredwr BIPBC yn ôl yr angen i ymdrin â materion. Byddai llawer iawn o waith yn digwydd o ran y meddygfeydd ym Mhrestatyn gan fod gan CICGC ddyletswydd i ysgrifennu at bob claf dan sylw.

Cwestiwn 3 - Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts.

“Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei Bapur Gwyrdd 'Ein Iechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd' ar hyn o bryd ac yn gofyn a yw'r model CIC presennol yn addas at y diben. Beth yw eich barn?”

Cadarnhaodd y Prif Swyddog fod gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd wedi mynd rhagddo i ddelio â sefyllfaoedd penodol a gweithio er lles y cleifion.

Roedd y CIC yn llais annibynnol o fewn y GIG, ac yn cynrychioli cleifion y GIG. Nid oedd unrhyw gadarnhad wedi bod ar y gweill bod y model CIC wedi bod yn gwbl addas at y diben.

Nid oedd gan y CIC unrhyw bŵer dros benodi Aelodau. Awgrymodd y Prif Swyddog mai'r ffordd well ymlaen fyddai i gysylltu â Chynghorwyr a mudiadau gwirfoddol lleol.

Yn y fan hon, mynegodd yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol, Oedolion a Gwasanaethau Plant, y Cynghorydd Bobby Feeley, ei diolch i'r holl drafodaethau cynrychioladol gan BIPBC a CICGC.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.10pm.